



Cyngor Sir y Fflint

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2018 - Mawrth 2019

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau amgen neu
yn eich iaith eich hun

Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

Gwasanaethau Corfforaethol

Neuadd y Sir

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint

CH7 6NG

Rhif Ffôn: ☎: - 01352 702131

E-bost: 📧 busnescorfforaethol@siryfflint.gov.uk

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynnyddol 2018 - 2019

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
1. Cyflwyniad	3
2. Cynnydd	4
3. Diwallu'r Ddyletswydd Gyffredinol	5
4. Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu	9
5. Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb	14
6. Hyfforddiant	14
7. Caffael	15
8. Casgliad	15
Atodiadau	
1. Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint 2016-2020 yn amlinellu'r cynnydd rydym wedi ei wneud i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn ystod 2018/19. Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw i leihau'r anghydraddoldeb a brofir gan bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.

Mae yna welliannau wedi bod mewn gwasanaeth ac rydym yn falch o adrodd fod yna saith cymuned Cyfeillgar i Dementia yn Sir Ddinbych erbyn hyn a thri sefydliad Cyfeillgar i Dementia. Mae Theatr Clwyd wedi cyflwyno dangosiadau Cyfeillgar i Dementia mewn sinemâu. Rydym wedi cadw'r statws "Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd" ac wedi llwyddo i ennill achrediad ar gyfer yr ymgyrch "Rhuban Gwyn". Mae ein Tîm Cyfranogiad wedi bod yn gweithio gyda bechgyn ifanc sy'n Deithwyr o fewn ysgol uwchradd. Mae'r tîm yn defnyddio Dull Seiliedig ar Hawliau i roi grym i bobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt. Mae'r bechgyn wedi derbyn hyfforddiant gyda Chomisiynydd Plant Cymru ac wedi eu recriwtio i Brosiect Llysgennad Cymunedol y Comisiynydd.

Rydym yn cydnabod ein bod wedi cael rhai llwyddiannau ond mae angen i ni wneud cynnydd o hyd, yn arbennig ym meysydd monitro cydraddoldeb ac asesiadau effaith. Rydym wedi integreiddio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 o fewn CAMMS, system rheoli perfformiad y Cyngor a fydd yn ein galluogi ni i fonitro cynnydd yn fwy effeithiol.

Colin Everett
Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Billy Mullin
Aelod Cabinet dros Reolaeth
Gorfforaethol ac Asedau

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018 – 2019

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) y Cyngor yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2018. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd o ran diwallu'r amcanion cydraddoldeb ac yn darparu crynodeb o'r llwyddiannau yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

1.2 Mae Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd sector cyhoeddus cyffredinol i

- (a) leihau gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth;
- (b) cynyddu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu; a
- (c) meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

1.3 Y nodweddion gwarchoddedig fel y maent yn cael eu diffinio gan y Ddeddf Cydraddoldeb yw:

Oedran	Anabledd
Ailbennu Rhyw	Priodas a Phartneriaeth Sifil
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Hil
Crefydd a Chred	Rhyw
Tueddfryd Rhywiol	

Caiff ymrwymiad y Cyngor tuag at yr iaith Gymraeg gan drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb eu hamlinellu yn [Hysbysiad Cydymffurfio'r Iaith Gymraeg](#). Fe ymdrinnir â'r camau gweithredu yr ydym wedi eu cymryd i gwrdd â'n cyfrifoldebau statudol tuag ar yr iaith Gymraeg mewn [adroddiad](#) ar wahân.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus:-

- gyhoeddi amcanion i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn tâl
- cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r camau y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r amcanion a faint o amser mae'n disgwyl ei gymryd i ddiwallu pob amcan
- llunio adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant a thâl
- ymgysylltu gyda phobl o grwpiau gwarchoddedig
- asesu effaith polisiau newydd a diwygiedig ar bobl o grwpiau gwarchoddedig
- cyhoeddi a defnyddio gwybodaeth ar gydraddoldeb

Pwrpas yr amcanion cydraddoldeb yw i leihau meysydd penodol o anghydraddoldeb a nodwyd gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a mesurol. Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru i nodi **amcanion cydraddoldeb rhanbarthol**. Gellir canfod yr amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a lleol a'r sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi'r amcanion [yma](#).

1.4 Yn ogystal â'r [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) caiff gwaith y Cyngor ar gydraddoldeb ei gefnogi gan [bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb](#), a Chanllaw Iaith Eglur a chaiff ei ddarparu fel rhan o ddogfennau Cyngor amrywiol fel Cynllun y Cyngor a'r Strategaeth Cwsmeriaid.

2. Cynnydd

2.1 Cafodd amcanion cydraddoldeb y Cyngor a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2016. Caiff y cynllun gweithredu i ddiwallu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei ddarparu yn Atodiad 1; mae hwn hefyd yn amlygu'r cynnydd a wnaed i ddiwallu pob cam gweithredu.

2.2 Mae cynnydd wedi ei wneud i sicrhau y cofnodir proffil amrywiaeth gweithwyr i ddiwallu dyletswydd cyflogaeth y Ddeddf Cydraddoldeb; ac mae adroddiad gwybodaeth y gweithlu wedi ei gyhoeddi; ac mae ar gael [yma](#).

2.3 Mae'r tabl canlynol yn amlinellu ein perfformiad o ran cyflawni ein hamcanion lleol.

Camau Gweithredu	DPA	Tuedd DPA
Mae 74% o'r camau gweithredu ar y trywydd iawn	Mae 73% o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar y trywydd iawn	Mae 47% wedi gwella
Mae 21% o'r camau gweithredu ar y gweill	Mae 3% o'r DPA ar y gweill	Caiff 37% eu cynnal
Mae 5% o'r camau gweithredu oddi ar y trywydd iawn	Mae 25% o'r DPA oddi ar y trywydd iawn	Mae 16% ar i lawr

3. Gweithgareddau ychwanegol – Cwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol

2018/19

Mae'r adran hon yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma o dan y ddyletswydd gyffredinol. Nid yw rhai o'r llwyddiannau wedi eu cynnwys o fewn y cynllun gweithredu ac maent yn weithgareddau ychwanegol ac mae rhai yn mynd i'r afael â thair rhan y ddyletswydd gyffredinol.

3.1 Lleihau gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth

Gweithgareddau a Chanlyniadau

- ¹Fe ddarparodd [Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth](#) weithdai gwrth-hiliaeth i ysgolion cynradd lleol a darparwyd gweithdai Trosedd Casineb i ysgolion uwchradd. Hefyd darparwyd sesiynau i lysgenhadon ysgolion Uwchradd.
- Darparodd [The Proud Trust](#)² hyfforddiant ymwybyddiaeth o bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol a Chwestiyngar i dîm y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Flintshire Sorted. Yn dilyn yr hyfforddiant hwn fe wisgodd aelodau o'r tîm llynnau gwddf a bathodynau lliwiau'r enfys fel arwydd gweledol i ddangos fod y gwasanaeth yn gefnogol i bobl ifanc LGBTQ.
- Mae ein Tîm Cyfranogi wedi bod yn gweithio gyda bechgyn ifanc sy'n Deithwyr mewn ysgol uwchradd. Mae'r tîm yn defnyddio Dull Seilledig ar Hawliau i roi grym i bobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt. Maent wedi derbyn hyfforddiant gyda Chomisiynydd Plant Cymru ac wedi eu recriwtio i Brosiect Llysgennad Cymunedol y Comisiynydd.
- Fe wnaed addasiadau ffisegol i'r ysgolion - mae chwe ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd wedi cael addasiadau i gynyddu eu hygyrchedd gan alluogi disgyblion anabl i gael mynediad i gwricwlwm cyfan yr ysgol a'u cefnogi i wireddu eu potensial.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o Deithwyr wedi ei ddarparu i'r prif swyddogion yn yr adran Dai.
- Mae Theatr Clwyd wedi:
 - darparu "Singing for the Soul" i bobl sy'n byw gyda Dementia.
 - cynnig dosbarthiadau drama i bobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) – mae dros 400 o bobl ifanc yn mynychu'r rhain;
 - gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar Brosiect "Celf o'r Gadair Freichiau";

¹ Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn elusen addysgol gwrth-hiliaeth.

² Mae The Proud Trust yn helpu pobl ifanc LGBT i gael y grym i wneud newid cadarnhaol iddynt eu hunain a'u cymunedau.

- darparu lleoliadau ar gyfer prosiect “Mind the Gap” – mae’r prosiect hwn yn darparu cyfleoedd i ferched ifanc o gefndiroedd difreintiedig i baratoi ar gyfer gwaith;
 - treialu ffrydio byw o'r theatr i gartrefi gofal lleol gyda gweithdai cofleidiol;
 - dod yn aelod o grŵp llywio Dementia Yr Wyddgrug i helpu i ddatblygu prosiectau i ddiwallu angen lleol;
 - sefydlu grŵp ffocws cymunedol ar gyfer unigolion a fyddai wedi ei chael yn anodd i ymweld â'r theatr. Mae’r grŵp hwn yn helpu’r theatr i ddatblygu eu strategaeth mynediad;
 - cynnig iaith arwyddion, sain ac isdeitlau i gynyddu mynediad i bobl gyda nam ar y synhwyrâu;
 - cyflwyno dangosiadau Cyfeillgar i Dementia mewn sinemâu;
 - llunio cynhyrchiad o “Lord of the Flies” yn cynnwys merched i gyd;
 - wedi arwyddo ar gyfer siarter newid gyda PIPA (Rhieni mewn Celfyddydau Perfformio);
 - cynyddu cynrychiolaeth fenywaidd ar eu Bwrdd o 0% i 30%;
 - Creu prosiect “Bright Sparks” sydd wedi ei anelu at bobl ifanc ym mlynnyddoedd 2 a 3 i’w cyflwyno i STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Mae’r rhaglen ddiweddaraf wedi targedu ymgysylltu gyda merched ifanc;
 - gweithio gyda’r ³MoneyPenny Foundation i ddarparu gweithdai i gefnogi merched ifanc di-waith i gael cyfleoedd newydd mewn bywyd a gwaith;
 - creu’r prosiect “Hwb” lle mae artistiaid yn meddiannu ysgol uwchradd am wythnos i ddarparu perfformiadau anarferol a rhai annisgwyl dros dro i hybu ac ymgysylltu pobl ifanc gyda'r celfyddydau. Roedd eu perfformiad o “Holly’s story” yn cynnwys monolog lle mae’r actorion yn “dod allan” ac yn mynegi hynny i’r gynulleidfa; a
 - chynnig tocynnau rhatach i ddefnyddwyr gwasanaethau’r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae’r Cyngor yn cymryd rhan yn Ymgyrch y Rhuban Gwyn i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched. Fe wnaethom gais llwyddiannus am ail achrediad gyda menter y Rhuban Gwyn.
 - Mae dros 36% o weithwyr wedi cwblhau lefel 1 o'r Hyfforddiant Cenedlaethol e-ddysgu Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
 - Mae 100% o'r Plant sy'n Derby'n Gofal wedi cofrestru gyda meddygfa a deintydd gan sicrhau fod ganddynt fynediad i ofal iechyd.
 - Cafodd 62 o ddigwyddiadau eu cynnal i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â dementia ar draws y sir.
 - Datblygwyd arf electronig er mwyn i ysgolion roi gwybod am ddigwyddiadau o fwlio seiliedig ar hunaniaeth. Bydd hyn yn hyrwyddo adrodd, monitro a dadansoddi mwy effeithiol gan alluogi i dueddiadau a'r prif fannau gael eu hadnabod ac adnoddau i gael eu targedu yn ôl yr angen.

³ Mae’r [MoneyPenny Foundation](#) yn rhoi cyfleoedd newydd mewn bywyd a gwaith i bobl ifanc ddi-waith.

3.2 Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Gweithgareddau a Chanlyniadau

- Cynnig y rhaglen “[SHEP](#)”, menter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rhaglen ar gyfer ysgolion sy'n darparu prydau iach, addysg am fwyd a maeth, gweithgaredd corfforol a sesiynau cyfoethogi i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf. 'Bwyd a Hwyl' yw enw'r brand a ddefnyddir i hyrwyddo'r clybiau i blant a theuluoedd. Roedd y rhaglen yn gweithredu bedwar diwrnod yr wythnos yn ystod tair wythnos gyntaf y gwyliau mewn dau safle ac roedd wedi ei anelu at ddisgyblion blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo a disgyblion presennol blwyddyn 7 yn yr ysgolion uwchradd.
- Mae perfformiad bechgyn sy'n llwyddo i dderbyn pump TGAU A*- C wedi gwella o 4.3% ac mae 2% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad y merched wedi gwella o 2.5%. Mae merched yn parhau i wneud yn well na'r bechgyn sy'n adlewyrchu'r duedd genedlaethol.
- Mae'r Cyngor yn ymgeisio i ddod yn sefydliad Cyfeillgar i Dementia i sicrhau fod gwasanaethau'n hygyrch i bobl sy'n byw gyda dementia.
- Mae nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl wedi gwella yn ystod y flwyddyn, pan roddwyd fframwaith newydd a phrosesau wedi eu gwella ar waith.
- Mae cytundeb mewn grym gyda'r Rhwydwaith Cymorth Dementia i ddarparu dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer pobl Fyddar sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor.
- Mae cytundeb mewn grym gyda'r Llinell Iaith ar gyfer darparu dehongliad dros y ffôn a chyfieithu dogfennau. Mae dehonglwyr Wyneb yn Wyneb hefyd ar gael os oes angen.
- Mae'r Gwasanaeth Maethu a Mabwysiadu yn mynd i'r afael â chyfres o fentrau wedi eu targedu yn ymwneud â'r gymuned Lesbaid, Hoyw a Deurywiol (LGBT) i gynyddu'r nifer o rieni maeth LGB. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys defnyddio'r faner enfys ar ddeunydd hyrwyddo ac annog rhieni maeth LGBT.
- Mae gan y Cyngor bolisiâu gweithio'n hyblyg a seibiant gyrfa sydd wedi bod mewn grym ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn galluogi gweithwyr i gael cydbwysedd rhwng gwaith a'r cartref yn effeithiol tra'n sicrhau fod anghenion y gwasanaethau'n cael eu diwallu. Ymhlith y cyfleoedd yn ymwneud â gweithio'n hyblyg mae:
 - Rhannu swydd
 - Lleihau Oriau neu Weithio'n Rhan-amser
 - Contractau yn ystod y tymor
 - Oriau Cywasgedig
- Mae cynlluniau prentisiaeth mewn grym. Mae'r Cyngor yn cynnig:
 - **Gweithwyr dan Hyfforddiant Sir y Fflint** - ar gyfer y rheiny sy'n gadael ysgol neu'n dychwelyd i addysg a sydd â 5 TGAU neu gymwysterau cyfatebol. Fel arfer bydd Gweithwyr dan Hyfforddiant Sir y Fflint yn ymgymryd â fframwaith Prentisiaeth lefel 2 / 3 dros gyfnod o ddwy flynedd.
 - **Graddedigion dan Hyfforddiant Sir y Fflint** – wedi'i anelu at y rhai sydd am fynd i weithio ar ôl y Brifysgol ac ennill cymwysterau proffesiynol.

Mae ein holl Weithwyr dan Hyfforddiant yn ennill yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol fel isafswm.

- Mae rhaglen cymorth i weithwyr mewn grym wedi ei ddarparu gan CareFirst sy'n rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i weithwyr ac Aelodau yn ymwneud â materion yn y cartref neu'r gwaith. Hefyd mae gan yr holl weithwyr ac Aelodau fynediad i wasanaeth cwnsela drwy Dîm Iechyd Galwedigaethol y Cyngor.
- Mae asesiadau risg mewn grym i sicrhau fod gan weithwyr anabl fynediad i offer priodol ac addasiadau rhesymol i'w galluogi i allu gweithredu eu rôl yn effeithiol.

3.3 Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Gweithgareddau a Chanlyniadau

- Fe gynhaliodd Archifdy'r Cyngor ddigwyddiad "Dathlu Merched Sir y Fflint Ddoe a Heddiw" a oedd yn cynnwys arddangosfa, Corws Siop Barbwr Merched, sgwrs ar Ferched yn Ysbyty Meddwl Gogledd Cymru a sgwrs ar Emmeline Pankhurst. Hefyd roedd yna gyfle i gwrrd â swffragét a hynny drwy actor mewn gwisg.
- Rydym yn codi'r Faner Drawsryweddol yn flynyddol ar 20 Tachwedd i nodi'r Diwrnod Cofio Trawsryweddol er cof am unigolion trawsryweddol sydd wedi colli eu bywydau o ganlyniad i drais trawsffobig.
- Fe godwyd y faner Enfys gennym yn ystod Chwefror 2019 i ddathlu Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LGBT) ac fe hyrwyddwyd gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â materion LGBT. Fe wnaeth myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Alun yr Wyddgrug gyflwyniad i aelodau etholedig ar y gwaith maent wedi bod yn ei wneud i hyrwyddo cynhwysiant LGBT.
- Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner ac yn cefnogi Ffoaduriaid fel rhan o Gynllun Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria y Swyddfa Gartref.
- Mae'r Cyngor yn aelod o gynllun Pencampwyr Amrywiaeth Stonewall sy'n dangos i weithwyr presennol a'r rhai posib ein bod yn sefydliad cyfeillgar i bobl LGBT. Mae gennym ni rwydwaith gweithwyr LGBT rhithwir.
- Rydym wedi derbyn ac wedi cadw statws Hyderus o ran Anabledd. Cynllun yw hwn gan yr Adran Waith a Phensiynau i helpu cyflogwyr i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddarperir drwy gyflogi pobl anabl.

3.4 Trosedd Casineb

Bu 129 achos o ddigwyddiadau casineb yn Sir y Fflint yn ystod cyfnod 2018/19, oedd yn gynydd bychan ers 2018. Cafodd y digwyddiadau eu dosbarthu fel a ganlyn:-

Math o ddigwyddiad:	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Cymhelliad hiliol	33	37	84	76
Homoffobig	6	6	26	29
Cysylltiedig ag Anabledd	6	9	8	14
Trawsffobig	0	1	0	1
Crefyddol	4	6	5	9
Cyfanswm	49	59	123	129

Mae aelodau o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i annog pobl i roi gwybod am droseddau casineb yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref bob blwyddyn. Hefyd cyhoeddodd y Cyngor negeseuon ar trydar a Facebook ochr yn ochr â chyrrff cyhoeddus eraill i annog pobl i roi gwybod am droseddau casineb. Cafodd y negeseuon hyn eu hailgyhoeddi yn ystod y Diwrnod Cofio Trawsryweddol (Tachwedd 2018) a mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (Chwefror 2019). Er bod yna gynnydd bychan wedi bod o ran rhoi gwybod am droseddau casineb, teimlir o hyd nad yw troseddau casineb yn cael eu hadrodd yn llawn ar draws Gogledd Cymru. Bydd gweithredu'n parhau i annog pobl i roi gwybod am droseddau o'r fath.

4. Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu

4.1 Datblygwyd systemau o fewn portffolios a gwasanaethau i gofnodi a monitro proffil ein cwsmeriaid yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Ond mae'r holl wasanaethau'n wahanol ac nid yw'r holl nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cofnodi ar bob system. Nid oes data digonol ar gael ar gyfer dadansoddiad manwl ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau. Mae'n weithred barhaus i wella cofnodi data ar draws gwasanaethau.

Daw'r categorïau a ddefnyddir i gasglu data amrywiaeth o [Gyfrifiad 2011](#) lle mae'r wybodaeth yma ar gael. Ond nid yw data am bob nodwedd warchoddedig yn cael ei gofnodi drwy'r Cyfrifiad, er enghraifft data am drawsrywedd a thueddfryd rhywiol. Mae gan rai cymunedau niferoedd eithaf isel sy'n gwneud dadansoddiad ystadegol yn anodd. Yn yr achosion hyn fe ddefnyddir canlyniadau ymchwil ac adroddiadau cenedlaethol.

4.2 Er gwaetha'r heriau o ran casglu data, mae gwelliannau wedi eu gwneud i'n prosesau. Rydym nawr yn:

- cofnodi manylion ethnig Defnyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn nawr yn faes gorfodol ar fas data cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol, PARIS.
- monitro proffil tenantiaid, ymgeiswyr digartrefedd a phobl ar y rhestrau aros am dai. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gwella Tai.
- cofnodi proffil disgyblion ysgol a lefelau cyrhaeddiad ysgolion.

Proffil disgyblion ysgolion cynradd yn ôl cefndir ethnig

Cefndir Ethnig	2016		2017		2018		2019	
	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Pobl Dduon a Lleafrifoedd Ethnig	384	2.8%	409	2.9%	425	3.03%	459	3.2%
Gwyn Prydeinig	12612	90.5%	12684	90.4%	12680	90.27%	12447	89.21%
Unrhyw Gefndir Gwyn Arall	671	4.8%	763	5.4%	752	5.35%	791	5.67%
Gwybodaeth Heb ei Gasglu	6	0.00%	6	0.0%	56	0.40%	136	0.97%
Gwybodaeth a Wrthodwyd	60	0.4%	48	0.3%	44	0.31%	32	0.23%
Heb ei Gofnodi gan yr Ysgol	210	1.5%	120	0.9%				
Arall					89	0.63%	87	0.62%
Cyfanswm	13943	100%	14030	100%	14046	100%	13952	100%

Proffil disgyblion ysgolion uwchradd yn ôl cefndir ethnig

Cefndir Ethnig	2016		2017		2018		2019	
	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Pobl Dduon a Lleafrifoedd Ethnig	183	1.9%	179	1.9%	188	2.02%	202	2.16%
Gwyn Prydeinig	9053	95.1%	8883	94.8%	8755	94.08%	8784	93.77%
Unrhyw Gefndir Gwyn Arall	248	2.6%	272	2.9%	308	3.31%	335	3.58%
Gwybodaeth Heb ei Gasglu	8	0.1%	8	0.1%	10	0.11%	14	0.15%
Gwybodaeth a Wrthodwyd	31	0.31%	27	0.3%	34	0.37%	25	0.27%

4.3 Mae ymchwil wedi ei wneud ar gyfer Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, rhwydwaith o Swyddogion Cydraddoldeb pob un o gyrff cyhoeddus Gogledd Cymru, i gynorthwyo i ganfod yr anghydraddoldeb sydd wedi ei brofi gan grwpiau gwarchoddedig. Mae'r [wybodaeth](#) ar gael i'w defnyddio gan wasanaethau.

4.4 Datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ffurflen fonitro cydraddoldeb enghreifftiol gyda Chanllawiau yn nodi Deg o'r Prif Awgrymiadau. Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ymhlith y categorïau monitro cydraddoldeb a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru a bydd yn cyfrannu at feincnodi mwy effeithiol.

4.5 Caiff data ansoddol ei gasglu drwy ddulliau eraill fel arolygon a grwpiau ffocws a thrwy ymgysylltu gyda grwpiau lleol fel rhwydweithiau gweithwyr y Cyngor a gyda grwpiau cymunedol:

- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- Fforwm Ieuencid Sir y Fflint
- Cysylltiadau ffydd
- Fforwm Pobl Hŷn
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cynghorau Ysgol
- Stonewall Cymru
- Grŵp trawsryweddol Unique
- Grŵp 50 plus Action Group

Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd gyda grwpiau cymunedol er mwyn clywed am broblemau yn fuan, derbyn adborth a barn am unrhyw fentrau a'u cynnwys mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb.

4.6 Defnyddio gwybodaeth i ddiwallu'r ddyletswydd gyffredinol

Caiff proffil cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth ei gymharu yn erbyn proffil y gymuned er mwyn canfod meysydd â gormod o gynrychiolaeth/heb ddigon o gynrychiolaeth neu sy'n tan gyflawni sydd yn galluogi gwasanaethau i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae defnyddio data yn y modd yma'n cynorthwyo gwasanaethau i ganfod meysydd posibl o wahaniaethu a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu ac i adnabod y cyfle i ehangu cyfle cyfartal drwy osod targedau gwelliant a fydd yn cael eu cynnwys yn y [CCS](#). Defnyddiwyd y wybodaeth yma hefyd i nodi [amcanion cydraddoldeb lleol y Cyngor](#).

Defnyddir cymariaethau o lefelau boddhad a chwynion a gwybodaeth o grwpiau ffocws hefyd i adnabod unrhyw feysydd o wahaniaethu posibl a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu a meysydd o densiwn cymunedol sydd yn eu tro yn cyfrannu at ganfod cyfleoedd i ehangu cydraddoldeb a meithrin perthnasoedd da.

4.7 Gwybodaeth Cyflogaeth

Caiff proffil y gweithlu ac ymgeiswyr swyddi ei fonitro. Mae canlyniadau'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 i'w gweld [yma](#). Fe grynhowyd rhywfaint o'r data i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion. Caiff proffil amrywiaeth llawn o'r gweithlu ei gyhoeddi ar wahân ac mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol o dan ddyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Cyngor nawr yn gallu cofnodi hunaniaeth o ran rhywedd wedi i newidiadau gael eu gwneud gan ddarparwr system rheoli Adnoddau Dynol y Cyngor.

Mae'r holl ddata ar y system Adnoddau Dynol yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig. Wrth i fodiwlau pellach o'r system Adnoddau Dynol gael eu gweithredu ac wrth i'r meysydd gael eu llenwi bydd adroddiadau ychwanegol ar gael yn y dyfodol, er enghraifft cwynion a chamau disgyblu a cheisiadau am hyfforddiant.

Fe gesglir gwybodaeth ansoddol drwy adborth gan gynrychiolwyr o'r Undebau Llafur a Chyd Bwyllgor Ymgynghori'r Undebau Llafur a thrwy'r rhwydweithiau gweithwyr.

Defnyddir gwybodaeth ansoddol a mesuroi ar gyfer asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bolisiâu ac arferion Adnoddau Dynol ac i adnabod meysydd posibl/gwirioneddol o anghydraddoldeb sydd angen ymchwiliad pellach.

4.8 Adolygiad Cyflog Cyfartal

Caiff yr adolygiad cyflog cyfartal ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae ar gael [yma](#). Mae'n ofynnol i ni osod amcan yn ymwneud â chyflog. Mae ymchwil cenedlaethol yn dangos fod y bwlch o ran cyflog rhwng dynion a merched yn parhau i fodoli. Rydym eisoes wedi cwblhau adolygiad o gyflog i gysoni telerau ac amodau ac rydym wedi cwblhau Archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Rhyw

Nododd yr Archwiliad Cyflog Cyfartal a wnaed ar 1 Ebrill 2018:

- gan ddefnyddio'r dull cymedrig o gyfrif, fod y cyflog cyfartalog i ferched ar draws yr holl raddfeydd Statws Sengl (Gradd A - N) yn **£20,998** a'r cyflog cyfartalog i ddynion ar draws yr holl raddfeydd yn **£25,065** gan roi bwlch cyflog at ei gilydd rhwng y rhywiau o **16.22%**. Mesur o'r cyfartaledd yw cymedr sy'n deillio o gyfuno gwerthoedd mewn sampl benodol ac yna rhannu'r swm gyda nifer y mesuriadau yn y sampl. Mewn enillion, gall nifer gymharol fach o swyddi ar gyflogau uchel ddylanwadu'n anghyfartal ar y cymedr.
- gan ddefnyddio'r dull cyfrif canolrif, fod y cyflog cyfartalog i ferched ar draws yr holl raddfeydd Statws Sengl (gradd A - N) yn **£18,319** a'r cyflog cyfartalog i ddynion ar draws yr holl raddfeydd yn **£21,074** gan roi bwlch cyflog at ei gilydd rhwng y rhywiau o **13.07%**. Y canolrif yw'r gwerth y mae 50% o'r holl swyddi'n disgyn oddi tano. Nid yw hwn yn cael ei effeithio gymaint gan nifer fach o staff ar gyflogau uchel iawn. Mae felly'n rhoi gwell syniad na'r cymedr o'r cyflog sy'n gyffredin.

Dadansoddiad o gyflog – gweithwyr anabl

	Nifer	Canran	Cyflog Cyfystyr â Llawn Amser cyfartalog
Anabl	127	1.91%	£25,563
Ddim yn Anabl	3849	57.89%	£26,009
Gwell ganddynt beidio â dweud, neu heb ddatgelu	2673	40.20%	£23,925

Sylwer: Ni fu'n bosib rhoi darlun ystyrlon o gymhariaeth graddfa wrth raddfa ac o wahanu galwedigaethol oherwydd nifer isel y gweithwyr sydd wedi cwblhau'r holiadur monitro cydraddoldeb.

Mae yna nifer sylweddol o weithwyr nad ydynt wedi datgan eu statws anabledd neu lle na wyddom beth yw eu statws ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gyflawni dadansoddiad manwl o gyflogau yn ôl statws anabledd. O'r 6649 o gofnodion ar draws holl weithwyr y Cyngor, mae 127 (1.91%) wedi datgelu anabledd, mae 3849 (57.89%) wedi cofrestru nad ydynt yn anabl ac nid yw 2673 (40.20%) wedi datgelu unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag anabledd.

Mae bwlch cyflog cymedrig o -1.71% rhwng yr holl weithwyr ar draws y Cyngor sydd ag anabledd wedi ei gofrestru a'r rhai a ddywedodd nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn golygu bod cyflog cyfartalog person anabl ar gyfartaledd 1.71% yn is na pherson nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag ni ystyrir fod y data yma'n drylwyr oherwydd y gyfran uchel o weithwyr na ddatgelodd wybodaeth am anabledd.

Cyflog yn ôl ethnigrwydd

Mae yna nifer helaeth o weithwyr a ddewisodd beidio â datgelu eu hethnigrwydd neu na wnaethant roi unrhyw wybodaeth am eu tarddiad ethnig (37.39%). Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gyflawni dadansoddiad trylwyr o gyflogau yn ôl ethnigrwydd. Dywedodd 4,105 o weithwyr (61.7%) mai 'gwyn' oedd eu tarddiad ethnig a dywedodd 49 o weithwyr (0.74%) mai BME (Du neu Leiafrifoedd Ethnig) oedd eu tarddiad ethnig. Proffil ethnig y sir yw 98.5% gwyn (Cyfrifiad 2011 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Dengys y dadansoddiad o'r cyflogau sylfaenol cyfartalog a enillir gan weithwyr gwyn a BME fod staff BME, at ei gilydd, yn ennill 1.55% yn fwy o gyflog sylfaenol cyfartalog na gweithwyr gwyn a gyflogir.

Tueddfryd Rhywiol

Canran yr holl weithwyr a ddywedodd fod eu tueddfryd rhywiol yn heterorywiol oedd 34.55%. Dywedodd 0.65% o'r gweithwyr a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn ddeurywiol/hoyw/lesbiaid. Roedd yn well gan 65% beidio â datgelu neu ni wyddys eu tueddfryd rhywiol. Nid yw'r data sydd gan y Cyngor ar dueddfryd rhywiol yn ddigon trylwyr i adrodd ar fylchau cyflog.

Crefydd

Y gyfran o'r boblogaeth gyfan o weithwyr a ddywedodd mai Cristnogaeth yw eu crefydd neu gred oedd 30.07% a dywedodd 0.13% fod ganddynt grefydd neu gred arall (Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslemaidd neu Sikhaidd). Dywedodd 12.5% nad oes ganddynt unrhyw grefydd, roedd yn well gan 2.06% beidio â dweud ac mae crefydd neu gred 54.07% yn anhysbys. Nid yw'r data sydd gan y Cyngor ar grefydd yn ddigon trylwyr i adrodd ar fylchau cyflog.

5.0 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg yw un o'r dulliau a ddefnyddir i wneud cydraddoldeb yn rhan o'r brif ffrwd ac i gefnogi gwasanaethau i adnabod targedau cydraddoldeb penodol.

5.2 Trefniadau ar gyfer asesu effaith polisiau ac arferion

Mae templed electronig (Asesiad o Effaith Integredig) wedi ei ddatblygu i gofnodi'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer ystod o asesiadau effaith – gan gynnwys yr amgylchedd, cydraddoldeb, iechyd, tlodi a'r iaith Gymraeg. Mae grŵp Sicrwydd Ansawdd Asesiad o Effaith Integredig (yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli gwahanol nodweddion gwarchoddedig) wedi ei sefydlu i adnabod effeithiau niweidiol posib ac awgrymu datrysiadau. Mae'r grŵp hefyd yn gweithredu fel "rhwyd ddiogelwch" i sicrhau fod safbwyntiau pobl ar draws y nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hystyried. Y nod yw sicrhau fod y broses Asesiadau o Effaith Integredig yn gadarn ac yn drylwyr a'i bod yn cyfrannu at welliant mewn canlyniadau i gwsmeriaid a gweithwyr. Mae canllawiau ar gael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig i gefnogi awduron Asesiadau o Effaith Integredig.

6.0 Hyfforddiant

6.1 Mae manylion ynglŷn â sut rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb i'w gweld yn y [CCS](#). Mae yna dri phecyn e-ddysgu:-

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cydraddoldeb yn y Gweithle
- Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd wedi eu cynnwys yn yr isod:

- Gwobr Gwasanaethau Cwsmer
- Rhaglen y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) ar bob lefel
- Modiwlau e-ddysgu ar gyfer rheolwyr newydd
- Gweithdai cyflwyno ar gyfer aelodau etholedig newydd

6.2 Yn ystod 2018/19 yn ogystal â'r rhaglenni e-ddysgu, cafwyd gweithdai ar:-

- Ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr
- Hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar gyfer ysgolion wedi ei ddarparu gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb – wedi ei ddarparu gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Hyfforddiant ar Gaethwasiaeth Fodern

- Hyfforddiant ar Raglen Ffoaduriaid Syria
- Hyfforddiant gwrth-derfysgaeth “Prevent” a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i weithwyr a ddaw wyneb yn wyneb â'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn deall eithafiaeth a radicaliaeth a'u bod yn gallu adnabod yr arwyddion a deall sut i roi gwybod am achos.
- Ymwybyddiaeth o ddiogelu – darparwyd gweithdy hanner diwrnod a gweithdy rhyngweithiol hanner diwrnod mewn arddull theatraidd yn ystod 2018/19. Nod yr hyfforddiant yw i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion diogelu a sicrhau fod gweithwyr yn adnabod yr arwyddion ac yn deall sut i roi gwybod am achos.
- Modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o drawsrywedd – y nod yw i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n wynebu'r gymuned drawsryweddol a deall sut i ddatblygu gwasanaethau cynhwysiant Trawsrywedd.

7.0 Caffael

7.1 Mae manylion am sut y caiff cydraddoldeb ei ymgorffori i'r broses gaffael yn cael ei amlinellu yn y [CCS](#). Mae'r Cyngor hefyd yn cynnwys cymalau yn ymwneud â manteision cymunedol mewn contractau sydd dros £1 miliwn; mae contractau gwerth £10,000 yn cynnwys elfen o fanteision cymunedol yn y dulliau sgorio. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth newydd i gynyddu'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir o'i weithgaredd caffael. Mae yn y broses o gaffael meddalwedd i alluogi gwasanaethau, cyflenwyr a darparwyr trydydd sector i gofnodi'r gwerth cymdeithasol maent yn ei gynhyrchu'n well. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cefnogaeth i bobl ddi-waith, arferion cyflogaeth deg a'r defnydd o'r isafswm cyflog.

8.0 Casgliad

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud i ddiwallu'r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus cyffredinol a phenodol. Ond mae'n amlwg fod casglu peth o'r data i fonitro cynnydd wedi bod yn heriol. Y blaenoriaethau dros flwyddyn olaf y cynllun fydd i:

- ganfod lle rydym angen sicrhau'r effaith mwyaf i leihau'r anghydraddoldeb a brofir gan grwpiau gwarchoddedig.
- cynyddu'r nifer o weithwyr sy'n cwblhau'r modiwlau e-ddysgu ar gydraddoldeb a chwblhau'r archwiliad amrywiaeth.
- cynyddu'r nifer o weithwyr sy'n cwblhau'r modiwlau e-ddysgu ar y Ddeddf Cydraddoldeb.
- sicrhau fod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal yn gadarn a chynyddu amrywiaeth y grwpiau gwarchoddedig a gaiff eu cynrychioli yn y Grŵp Sicrwydd Ansawdd Asesiad o Effaith Integredig.
- adolygu ein hamcanion a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020/24.

Diolch am ddarllen ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018/19.

Croesewir safbwyntiau ac awgrymiadau ar gyfer ein hadroddiad blynyddol.

Cysylltwch â ni ar:

Rhif ffôn: ☎ 01352 702131

E-bost: 📧 corporatebusiness@flintshire.gov.uk